CANLLAWIAU

# Casglu eich eiddo ar ôl symud allan o'ch cartref: coronafeirws

Beth i'w wneud os ydych wedi symud allan o'ch cartref neu lety myfyrwyr ond bod angen i chi gasglu eich eiddo.

Cyhoeddwyd gyntaf:
22 Mai 2020
Diweddarwyd ddiwethaf:
6 Gorffennaf 2020

Cynnwys

Cyflwyniad
Canllawiau'r Llywodraeth
Siaradwch â'ch landlord ac edrychwch ar eich cytundeb tenantiaeth
Eiddo nad ydych am eu cadw bellach
Cefnogaeth a chyngor pellach

Canllawiau cenedlaethol yw'r rhain sy'n berthnasol i Gymru gyfan.

Ystyriwch a oes cyfyngiadau lleol yn eu lle wrth ddarllen a rhoi'r canllawiau hyn ar waith.

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn wedi ei anelu at denantiaid (yn cynnwys myfyrwyr) sydd eisoes wedi gadael eu llety rhent preifat oherwydd argyfwng Covid-19 ac sy'n dymuno dychwelyd i'r llety hwnnw er mwyn casglu eu heiddo yn unig.

**Dylai myfyrwyr sy'n byw mewn llety sy'n cael ei redeg gan y Brifysgol** gysylltu â'r Brifysgol i drafod sut i fynd i gasglu eu heiddo.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig. Os oes angen i chi deithio o rywle arall i Gymru, neu o Gymru i rywle arall, bydd angen i chi hefyd ystyried canllawiau teithio a llety y wlad honno.

## Canllawiau'r Llywodraeth

Dylid darllen Canllawiau Llywodraeth Cymru ar aros gartref a chadw i ffwrdd oddi wrth eraill wrth ystyried casglu eich eiddo.

## Siaradwch â'ch landlord ac edrychwch ar eich cytundeb tenantiaeth

Os ydych yn gwybod na fedrwch ddychwelyd i'ch llety i gasglu eich eiddo cyn i'ch tenantiaeth ddod i ben, dylech gael gair â'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo yn gyntaf i drafod y broses o adhawlio eich eiddo mewn ffordd ddiogel, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau'r Llywodraeth.

Efallai bod eich cytundeb tenantiaeth yn amlinellu'r protocol ar gyfer diwedd tenantiaeth, sy'n gymwys i'ch llety chi, a'r disgwyliadau sydd arnoch chi ac ar eich landlord, mewn perthynas â chlirio eich eiddo o'r llety, a'r hyn fydd yn digwydd i unrhyw eiddo sy'n cael ei adael ar ôl unwaith y bydd y denantiaeth wedi dod i ben.

Dylech drafod eich sefyllfa benodol chi gyda'r landlord neu'ch asiant gosod eiddo. Os yw'ch tenantiaeth wedi dod i ben, neu os bydd y denantiaeth yn dod i ben yn fuan, dylech, lle bo modd, geisio gwneud trefniant gyda'ch landlord. Dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnod o unrhyw ohebiaeth gyda'ch landlord neu'r asiant gosod eiddo ac yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig o unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud.

Os nad oes modd i chi ddod i gytundeb i storio eich eiddo yn ddiogel, a bod y landlord yn gofyn i chi gasglu'ch eiddo o'r llety, gallwch wneud hynny on rhaid i chi ystyried y **canllawiau ar aros gartref a chadw i ffwrdd oddi wrth eraill**.

Os oes angen i chi gasglu eiddo, a'ch bod yn rhannu'r llety gydag eraill, efallai y byddwch am ddod i gytundeb rhwng eich gilydd a'r landlord i gasglu'r eiddo ar amseroedd gwahanol, er mwyn dod i gyn lleied â phosib o gysylltiad ag eraill, a sicrhau eich bod yn cadw at y ddeddfwriaeth a chanllawiau'r Llywodraeth.

## Eiddo nad ydych am eu cadw bellach

Os ydych wedi gadael eiddo yn eich llety, ac nad ydych am eu cadw bellach, byddwch yn ymwybodol y gallai'ch landlord godi tâl arnoch am eu gwaredu. Dylech edrych ar delerau eich cytundeb tenantiaeth.

Os ydych wedi gadael eiddo nad ydych am eu cadw bellach, ond a allai fod o ddefnydd i rywun arall, efallai y byddwch am eu cynnig i bobl anghenus. Dylech siarad â thîm digartrefedd yr awdurdod lleol perthnasol i gael rhagor o wybodaeth.

## Cefnogaeth a chyngor pellach

Os, ar ôl ystyried eich cytundeb tenantiaeth a siarad â'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo, rydych yn bryderus am beth fydd yn digwydd i'ch eiddo, rydym yn awgrymu eich bod yn chwilio am gyngor pellach. Dyma rai enghreifftiau o'r cymorth sydd ar gael:

### Cyngor ar Bopeth Cymru

**Advicelink Cymru**

Ffôn: 03444 772 020

Mae'r llinellau ffôn yn weithredol rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, a dechrau a diwedd y dydd yw'r adegau prysuraf fel arfer. Nid ydynt yn agored ar ddyddiau gwyliau cyhoeddus

Gwasanaeth Text Relay: 03444 111 445

### Shelter Cymru

Help/cyngor ynghylch tai a chyngor arbenigol ar ddyled: 08000 495 495 (mae'r llinellau ffôn yn weithredol rhwng 9.30am a 4.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

Efallai y byddwch hefyd am gael eich cyngor cyfreithiol eich hun ar ba opsiynau eraill a allai fod ar gael i chi, pe bai angen.

Os ydych yn fyfyriwr ac yn cael anhawster dod i gytundeb gyda'ch landlord neu asiant gosod eiddo, efallai y bydd o fudd i chi hefyd gysylltu â'ch Prifysgol, neu'r Undeb Cenedlaethol i Fyfyrwyr am gymorth pellach.

Cyhoeddwyd gyntaf
22 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
6 Gorffennaf 2020